fertilitynetwork cymru

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

FiTW
FERTILITY IN THE WORKPLACE
DEVELOPED AND PROVIDED BY FERTILITY NETWORK UK

In partnership with
Bourn Hall
FERTILITY CLINIC
and
HSBC UK

# Llyfryn llysgennad gweithle

Rwyt ti ddim ar ben dy hun

Ffrwythlondeb yn y Gweithle

Lysgennad Gweithle



Updated January 2026 for Fertility Network UK

## PAM DEWIS FITW?

# Cefnogi'r elusen genedlaethol

**Nid oes unrhyw sefydliad ffrwythlondeb arall yn cynnig yr ystod o wasanaethau a chymorth rydyn ni'n eu darparu**

Mae rhwydwaith ffrwythlondeb y DU yn darparu cefnogaeth, cyngor, gwyboadaeth a ddealltwriaeth am ddim a diduedd sydd wedi'u heffeithio gan broblemau ffrwythlondeb.

Ni yw prif elusen ffrwythlondeb y genedl sy'n canolbwyntio ar gleifiion ac rydym yma ar lefel ymarferol ac emosiynol, beth bynnag fo'ch profiad o broblemau ffrwythlondeb, i gynnig gwasanaethau cymorth, gwyboadaeth a mynediad at gmuned o bobl yr effeithir arnynt gan broblemau ffrwythlondeb.

# Dysgu o brofiad bywyd

Mae pob un o'n tîm Ffrwythlondeb yn y Gweithle wedi cael eu taith ffrwythlondeb bersonol eu hunain a'u profiadau eu hunain yn y gweithle. Rydym yma i helpu i ddarparu'r gefnogaeth y mae mawr angen amdani i eraill sydd wedi cael profiadau tebyg ac i rannu ein gwybodaeth a'n profiadau ein hunain, ynghyd â'r hyn rydym wedi'i ddysgu, fel tîm ac fel unigolion.

Yn falch o hyrwyddo
Tegwch Ffrwythlondeb
FFRWYTHLONDEB YN Y GWEITHLE

# AM Y RÔL

Mae llysgenhadon gweithle yn chwarae rhan allweddol wrth ysbrydoli yn y gweithle a chynnig cefnogaeth uniongyrchol i gydweithwyr yn eu sefydliad eu hunain.

Mae'r rôl yn cynnwys y canlyniol:

- **Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer cefnoageth 1:1 i gydweithwyr a rheolwyr.**
- **Annog y sefydliad i adolygu / gweithredu polisi gweithle ynghylch triniaethau ffrwythlondeb a materion iechyd atgenhedlu cysylltiedig.**
- **Rhoi'r wybodaeth ddiweraf i'r sefydliad am newyddion a digwyddiadau sy'n ymwneud â ffrwythlondeb yn y gweithle.**
- **Annog sgursiau agored am faterion ffrwythlondeb a'r effaith ar bob agwedd o fywyd.**
- **Darparu cyfeiriadau at sefydliadau professiynol perthnasol.**
- **Annog sefydliadau i ymuno â phecynnau ffrwythlondeb yn y gweithle.**
- **Annog eichsefydliad i fabwysiadu Rhwydwaith Ffrwythlondeb DU fel eich elusen ddewisol ar gyfer y flwyddyn.**

FERTILITY IN THE WORKPLACE
DEVELOPED AND PROVIDED BY FERTILITY NETWORK UK

## Darparu cefnogaeth i staff

Yn Rhwydwaith Ffrwythlondeb DU, rydym wedi dangos dro ar ôl tro fod y rhan fwyaf o bobl sy'n cael problemau ffrwythlondeb yn amharod i siarad â'u cyflogwr oherwydd eu bod yn ofni y gallai gael effaith andwyol ar eu gyrfa. Rydym yn gwybod nad yw'n anghyffredin i staff ddewis lleihau eu horiau neu roi'r gorau i'w swydd os na allant gydbwyso gwaith a phroblemau ffrwythlondeb.

Rydym yn disgwyl i lysgenhadon ein gweithle fod yn barod i fod y person yn eu sefydliad a all ddarparu clust i wrando ac arweiniad i'r rhai sydd am gefnogi eu cydweithwyr.  Ddrwy ddod yn llysgennad cydnabyddedig, gan arddangos eich bathodyn yn falch ar eich llofnod e-bost, rhydych chi'n gwneud i gydweithwyr wybod, os nad ydyn nhw'n teimlo'n gyfforddus yn siarad a'u tim neu realwr llinell, y gallant siarad a chi, yn gyfrinachol, a byddwch:

- **Cynnig clust i ddeall ac i wrando**
- **Darparu gwybodaeth am yr hyn y mae'r sefydliad yn gallu ei gynnig ar hyn o bryd o ran cymorth yn y gweithle**
- **Cyfeirio at wasanaethau cymorth ychwanegol.**

Rydym yn cydnabod, i lawer, yn enwedif y rhai sydd wedi canfod eu profiad byw eu hunain o broblemau ffrwythlondeb, y gallai'r rôl hon arwain at rai sgyrsiau anodd ar adegau. Felly rydym yn cynnig sgiliau grwando a chwnsela am ddim, er mwyn cynyddu hyder personol yn sut i reoli'r sgyrsiau hyn. Ni disgwylir i chi fod yn gwnselydd, ac os teimlwch y byddai cwnsela yn opsiwn buddiol, byddem yn disgwyl i chi eich cyfeirio at wasanaethau proffesiynol eraill (yn delfrydol, drwy eich sefydliad eich hun y darperir y gefnogaeth hon neu byddwn yn darparu dolenni i wasanaethau priodol). Mae'r hyfforddiant hyn am ddim ac yn syml yn helpu datblygu'r sgiliau sydd ei hangen i fod yn wrandäwr effeithiol ac empathig.

Byddwch hefyd yn derbyn cefnogaeth 1:1 gan ein tîm profiadol, i sicrhau y gallwch drafod pethau os oes angen a chael mynediad at y gefnogaeth a'r cyfeiriadau cywir.

# Adolygiad Polisi Ffrwythlondeb

Er bod mamolaeth yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, o dan ddedfwriaeth gyfredol, hyd nes bod menyw sy'n ceisio dechrau teulu yn feichiog, nid oes ganddi hawl i'r un amddiffynidau. Er bydd y rhan fwyaf sy'n ceisio beichiogi'n naturiol yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethau anghyfreithlon pan fydd ei penaethiaid yn cael gwybod am beichogrwydd, mae angen i lawer sy'n cael triniaethau ffrwythlondeb wneud i benaethiaid fod yn ymwybodol yn llawer cynharach yn broses feichiogi ac nid ydynt ar hyn o bryd yn cael yr un hawliau gwrth-wahaniaethau. Wnaeth arolwg diweddar gan Rhwydwaith Ffrwythlondeb DU a Fertifa ddangos mai dim ond 25% o sefydliadau sydd â Pholisi Ffrwytlondeb ar waith ar hyn o bryd.

Mae ymwchwil yn dangos bod y rhai sy'n cael triniaethau ffrwythlondeb yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn anheg o ran cael amser i ffwrdd i fynd i apwyntiadau meddygol neu eu bod yn poeni y byddant yn cael eu hanwybyddu ar gyfer cyfleoedd gyrfa oherwydd y dybiaeth y bydd triniaethau ffrwythlondeb yn arwain at feichogrwydd a chyfnod mamolaeth dilynol. Yn aml nid yw hwn yn wir a gall pobl gael triniaethau ffrwythlondeb am flynyddoed lawer, gan diodedef pwydau ariannol, meddyliol a chorfforol o ganlyniad, gan ganfod eu hunan yn cael eu hanwybyddu yn y gweithle ar gyfer dyrchafiad a chyfleoedd, dim on di wynebu bywyd o ddiffyg plant, nid o ddewis, a'r holl alar a chanlyniadau sy'n dod gyda hynny.

Fel Llysgennad Gweithle byddem yn edrych atoch chi i nodi pa bolisïau sydd ar waith yn eich sefydliad ar hyn o bryd a sicrhau bod polisi ffrwythlondeb yn bodoli ac yn cael ei ddeal yn llawn gan reolwyr llinell a staff, fel y gellir ei weithredu'n deg. Lle nad oes polisi ar waith, neu lle and yw'n ymddangos ei fod yn ddigonol, byddem yn annog sgyrsiau i ddigwydd gyda thimau AD a ba newidiadau y gellir eu gwneud i gefnogi staff yn well.

Mae **Pecynnau Cymorth Ffrwythlondeb yn y Gweithle** yn cynnig arweiniad polisi rhad ac am ddim i sefydliadau a byddem yn annog pob sefydliad i gael gwybod mwy.

# DECHRAU'R SGWRS

## Rhestr Bostio

**Tanysgrifiwch i'n cylchlythyr misol Rhwydwaith Ffrwythlondeb DU** sy'n cynnwys gwybodaeth am newidiadau deddfwriaethol, cyrsiau lles am ddim. gweminarau, newyddion a gwybodaeth i'r rhai yr effeithir arnynt gan heriau ffrwythlondeb. Byddem yn gofyn i bob Llysgennad gofrestru ar gyfer y cylchlythyr hwn a rhannu diweddariadau gyda staff ac adrannau AD perthnasol, i sicrhau bod y sgwrs yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y sefydliad.

## Adnoddau

Byddwn yn darparu mynediad ac arwyddo at holl grwpiau a digwyddiadau cymorth Rhwydwaith Ffrwythlondeb y DU, i annog pobl i gysylltu ag eraill sydd â phrofiadau a cyffredin. Bydd sefydliadau sy'n cofrestru ar gyfer ein pecynnau hefyd yn cael mynediad at bosteri a thaflenni ffeithiau i annog sgyrsiau agored yn y gweithle, gan helpu i gael gwared ar y tabŵ o'r pwnc hwn.

Mae gennym hefyd digonedd o adnoddau am ddim i gyflogwyr a gweithwyr ar ein gwefan. Cliciwch **yma** i ymweld a'n tudalen adnoddau.



# PECYNNAU CYMORTH

Yn Rhwydwaith Ffrwythlondeb DU, rydym wedi dangos dro ar ôl tro fod y rhan fwyaf o bobl sy'n cael problemau ffrwythlondeb yn amharod i siarad â'u cyflogwr oherwydd eu bod yn ofni y gallai gael effaith andwyol ar eu gyrfa. Rydym yn gwybod nad yw'n anghyffredin i staff ddewis lleihau eu horiau neu roi'r gorau i'w swydd os na allant gydbwyso gwaith a phroblemau ffrwythlondeb. Gall hyn fod yn her i gyflogwyr, yn weithredol ac yn ariannol, a dyna pam mae gan nifer gynyddol o gwmnïau bolisi ffrwythlondeb ar waith bellach sy'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael – maent yn gwerthfawrogi bod gweithle cefnogol yn dda i fusnesau yn ogystal ag i weithwyr.

Ein nod yw grymuso cyflogwyr a rheolwyr llinell i ddatblygu a rhannu gwybodaeth am effaith anawsterau ffrwythlondeb, deall hawliau a pholisïau gweithwyr yn well, a dysgu sut i ddarparu cefnogaeth briodol a sensitif i weithwyr.

Mae ein holl becynnau cymorth yn darparu'r canlynol am flwyddyn:

## Canllawiau Polisi

## Adnoddau dysgu ar-lein

## Cydnabyddiaeth Cyflogwr


## Cymorth i weithwyr

*Mae buddion ychwanegol ar gael gyda lefelau uwch o becynnau cymorth.
Am fwy o wyboadaeth, lawrlwythwch ein llyfryn neu cysylltwch a ni'n uniongyrchol a bydd un o'n tim mewn cysylltiad i drafod eich anghenion.

# YMGYRCHU DROS NEWID

FERTILITY IN THE WORKPLACE
DEVELOPED AND PROVIDED BY FERTILITY NETWORK UK

## Ymunwch â ni yn ein hymgyrch dros degwch ffrwythlondeb yn y gweithle




Rydym ar hyn o bryd yn gweithio fel rhan o'r Grŵp Ymgyrch Ffrwythlondeb yn y Gweithle, i godi ymwybyddiaeth ac ymgyrchu dros newid systemig mawr sydd ei angen mewn deddfwriaeth cyflogaeth. Gallwch ddysgu mwy am hyn a sut y gallwch helpu ein hymgyrch **yma**.

A gallwn eich helpu i ddarparu cefnoagaeth i'ch gweithwyr mewn 4 cam hawdd:

1. **Gwyboadaeth hygyrch:** Cael polisi ffrwythlondeb gwethle hygyrch i greu diwylliant agored heb stigma; i sicrhau bod gweithwyr yn teimlo'n gyfforddus yn y gweithle; ac i atal y dalent orau rhag gadael.
2. **Ymwybyddiaeth yn y gweithle:** Sefydlu rôl Llysgennad Ffrwythlondeb i agor sgursiau'n fewnol a gwneud pobl yn ymwybodol o'r genfnogaeth sydd ar gael.
3. **Hyfforddiant staff:** Sicrhau bod rheolwyr llinell yn deall realiti triniaeth i weithwyr gan gynnwys yr effaith gorfforol, meddyliol, ac ariannol a sut gallant gefnogi drwyddi.
4. **Gweithio'n hyblyg**: Rhoi'r hawl i weithwyr ofyn am withio'n hyblyg, gan gynnwys addasiadau gweithio rhesymol, fel y gallant fynychu apwyntiadau.

.

Trwy weithredu Llysgennad Ffrwythlondeb yn y Gweithle, byddai eich sefydliad eisoes yn bodloni 2 o'r 4 cam, gall FiTW helpu gyda'r gweddill!

# ALLWCH CHI YMATEB I’R HER?

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

FERTILITY IN THE WORKPLACE
DEVELOPED AND PROVIDED BY FERTILITY NETWORK UK

## Sut i gofrestru...

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud i gofrestru ar gyfer y rhaglen hon yw siarad a’ch rheolwr llinell/adran AD amdano. Dywedwch wrthynt pam rydych chi eisiau eu wneud, dangoswch y wybodaeth hon iddynt gadarnhau eu bod yn hapus i chi gofrestru. Nid oes unrhyw gost ynghlwm ac mae’r budd i’r sefydliad yn dangos eu bod yn ceisio cefnogi lles eu gweithle yn weithredol. Neges wych i’w hanfon at staff presennol a darpar staff.




Anfonwch gadarnhad o’r cytundeb hwn atom a byddwn yn eich sefydlu gyda’r cyfan sydd ei angen arnoch i ymgymryd â’r rôl hynod werthfawr hon yn eich gweithle.

*Os hoffai eich sefydliad wybod mwy, peidiwch ag oedi â cysyllti a ni a byddwn yn hapus i drefnu galwad*

## CYSYLLTWCH


E-BOST: TEAMWALES@FERTILITYNETWORKUK.ORG





Fertility Network UK is a trading name of The Infertility Network (UK) Company Registration No. 4822073
Charity Registration No. 1099960 Charity Registered in Scotland No. SC039511